## RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

### Erthygl 12 - Gwneud Penderfyniadau

---

12.1 **Cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau**

Mae nifer o benderfynwyr gwahanol a all fod yn gyfrifol am benderfyniadau amrywiol yr awdurdod:

(i) Cyngor Llawn
(ii) Pwyllgor neu Is-bwyllgor Cyngor
(iii) Y Cabinet
(iv) Pwyllgor y Cabinet
(v) Yr Arweinydd neu aelod unigol arall o'r Cabinet
(vi) Aelod unigol nad yw'n aelod o'r Cabinet
(vii) Cydbwyllgor neu Gydbwyllgor Corfforaethol
(viii) Swyddog

Bydd yr Awdurdod yn paratoi ac yn diweddaru Cynllun Dirprwyo sy'n cofnodi pa ran o'r Awdurdod neu ba unigolyn sy'n gyfrifol am benderfyniadau penodol neu benderfyniadau'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau penodol. Nodir hyn yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

12.2 **Egwyddorion gwneud penderfyniadau**

Caiff holl benderfyniadau'r Awdurdod eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) ar sail teilyngdod a budd y cyhoedd;
(b) drwy ymgynghori'n briodol ac ar ôl cael cyngor proffesiynol gan gyflogeion;
(c) drwy roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal, cynaliadwyedd, risg a hawliau dynol ac ati;
(d) yn unol â mynediad priodol at wybodaeth; a chan
(e) esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad, cofnodi unrhyw fudd personol datganedig, unrhyw hawl i siarad a roddwyd gan Bwyllgor Safonau a Moeseg yr Awdurdod a manylion unrhyw ymgynghori perthnasol.

12.3 **Mathau ar benderfyniad**

(a) **Penderfyniadau a neilltuwyd i'r Cyngor**
Caiff penderfyniadau'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.1 eu gwneud gan y Cyngor ac ni chânt eu dirprwyo.

(b) **Penderfyniadau a wneir gan y Cyngor**
Yn amodol ar Erthygl 12.4, bydd y cyfarfod Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor wrth ystyried unrhyw fater.

(c) **Penderfyniadau a wneir gan y Cabinet**

Yn amodol ar Erthygl 12.4, bydd y Cabinet yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau’r Cabinet wrth ystyried unrhyw fater.

(d) **Gwneud penderfyniadau gan yr Arweinydd neu aelodau unigol o'r Cabinet**
Gellir gwneud trefniadau (o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, adran 15) i ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i Arweinydd neu aelodau unigol y Cabinet. Nid yw Cynllun Dirprwyo cymeradwy'r Cyngor yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer penderfyniadau'r Arweinydd nac aelod unigol o'r Cabinet. Mae aelodau'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau ar y cyd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cabinet.

(e) **Gwneud penderfyniadau gan aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet**
Gellir gwneud trefniadau (o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adran 56) i ddirprwyo swyddogaethau penodol i aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, yn benodol, swyddogaethau sy'n ymwneud â ward etholiadol yr Aelod; neu sy'n ymwneud â'u haelodaeth o gorff arall y maent wedi'u penodi iddo gan y Cyngor neu ar ei ran. Bydd y Cynllun Dirprwyo yn cynnwys unrhyw drefniadau o'r fath. Nid oes trefniadau o'r fath ar waith ar hyn o bryd.

(f) **Penderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau Craffu ac unrhyw is-bwyllgorau'r Pwyllgorau Craffu**
Bydd Pwyllgorau Craffu a’u his-bwyllgorau yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau Cyfarfodydd Pwyllgor a Rheolau Gweithdrefnau Craffu wrth ystyried unrhyw fater.

(g) **Penderfyniadau a wneir gan bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill a sefydlwyd gan y Cyngor**
Yn amodol ar Erthygl 12.4, bydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau yn dilyn y Rheolau Gweithdrefnau Cyfarfodydd Pwyllgor fel ag sy’n berthnasol iddynt.

(h) **Penderfyniadau a wneir gan Swyddogion**
Bydd swyddogion yn gwneud penderfyniadau yn unol â Rhan 2, Adran 4 y Cyfansoddiad hwn.

12.4 **Penderfyniadau a wneir gan gyrff y Cyngor yn gweithredu fel tribiwnlysoedd**

Bydd y Cyngor, ei bwyllgorau, Cynghorydd neu gyflogai sy’n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu yn penderfynu/ystyried (ac eithrio at ddibenion cynghori) hawliau sifil ac ymrwymiadau neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson, yn dilyn gweithdrefn briodol sy’n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a’r hawliau sydd wedi’u cynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol 1998